**SWYDDOG MOROL (CYMRU)**
**Lleoliad: Gweithio Gartref gyda theithio rheolaidd ledled Cymru a'r DU**
**Cyflog: hyd at £30,000**
**Buddiannau: Yswiriant meddygol preifat, cynllun cerbydau trydan staff a hawl i bensiwn hael a gwyliau blynyddol**
**Llawn amser: 35 awr yr wythnos**
**Cytundeb Tymor Penodol hyd at fis Mawrth 2027**

Os ydych chi'n gadwraethwr morol angerddol sy'n chwilio am rôl a fydd yn creu budd sylweddol i fyd natur ym moroedd Cymru gydag un o'r elusennau natur mwyaf poblogaidd yn y DU, mae gennym ni gyfle cyffrous i chi.

Ni yw'r sefydliad anllywodraethol mwyaf sy'n gweithio ar faterion morol yn y DU ac rydyn ni'n chwilio am gydweithiwr cefnogol, brwdfrydig a gwybodus i ymuno â'n tîm ni. Er gwaethaf Blue Planet ac, yn fwy diweddar, y gyfres Wild Isles, mae gennym ni waith i'w wneud o hyd i godi proffil y môr a phopeth sy'n byw ynddo.

Rydyn ni'n gwybod bod ein bywyd gwyllt morol ni dan bwysau cynyddol ac mae angen i ni wneud mwy i'w warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – ai chi yw'r person i'n helpu ni i wneud hynny? Rydyn ni'n chwilio am unigolyn i ymuno â thîm Cymru yr Ymddiriedolaethau Natur i gyflwyno newidiadau cadarnhaol mewn polisi cadwraeth forol yng Nghymru.

**Pwy ydym ni**

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn fudiad ar lawr gwlad o bobl o ystod eang o gefndiroedd sy'n credu ein bod ni angen byd natur a bod byd natur ein hangen ni. Mae gennym ni fwy na 944,000 o aelodau, mwy na 38,000 o wirfoddolwyr, 3,600 o staff a 600 o ymddiriedolwyr. Mae 46 o Ymddiriedolaethau Natur unigol, pob un ohonynt yn elusen annibynnol seiliedig ar le gyda'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun, wedi'i ffurfio gan grwpiau o bobl yn dod at ei gilydd ac yn gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol, gan ddechrau lle maen nhw'n byw ac yn gweithio.

Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn rhan o ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur ac yn aelod corfforaethol o Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur, elusen gofrestredig yn ei rhinwedd ei hun a sefydlwyd yn 1912 ac un o aelodau sefydlu IUCN - yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Gyda'i gilydd, mae'r ffederasiwn yma o 47 o elusennau yn cael ei adnabod fel yr Ymddiriedolaethau Natur.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn allweddol wrth i ni benderfynu pa fath o fyd y byddwn ni i gyd yn byw ynddo. Mae angen i ni wyrdroi'r colli ar fywyd gwyllt ar frys, a rhoi byd natur mewn adferiad ar raddfa fawr os ydyn ni am atal trychineb hinsawdd ac ecolegol. Rydyn ni'n cydnabod y bydd hyn yn gofyn am newidiadau mawr, beiddgar yn y ffordd mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio, ac yn sicr o ran sut rydyn ni'n defnyddio eraill ac yn eu cefnogi i drefnu yn eu cymunedau eu hunain.

**Amdanoch chi**

Byddwch yn drefnus ac yn llawn cymhelliant, yn gallu cymryd yr awenau ac arwain y gwaith o gyflwyno polisi cadwraeth morol a datblygiadau newydd mewn cyllid morol yn effeithiol yng Nghymru. Bydd gennych ddealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu bywyd gwyllt morol. Bydd gennych brofiad o waith eiriolaeth ac, yn ddelfrydol, dealltwriaeth o ddeddfwriaeth amgylcheddol Cymru. Bydd angen i chi ddeall sut i gyflawni adferiad cynefinoedd a rhywogaethau morol ar raddfa fawr. Yn gysylltiedig â hyn, ymwybyddiaeth o faes sy'n dod i'r amlwg, sef cyllid glas a budd net morol. Byddwch yn cael eich cefnogi gan gydweithwyr yn y DU ac unigolion o fewn y pum Ymddiriedolaeth Natur leol yng Nghymru.

**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gwerthfawrogi angerdd, parch, ymddiriedaeth, integriti, gweithredu pragmatig a chryfder mewn amrywiaeth. Er ein bod yn angerddol dros hyrwyddo ein nodau, rydyn ni'n gynhwysol, ac nid yn feirniadol. Rydyn ni'n annog yn arbennig geisiadau gan bobl heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sector ni, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol a phobl ag anableddau. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu mudiad sy'n cydnabod ac sydd wir yn gwerthfawrogi gwahaniaethau a hunaniaethau unigol.**

**Mae'r RSWT yn gweld ei chyfrifoldebau Diogelu fel mater hynod ddifrifol. Cliciwch yma i ddarllen ein datganiad ymrwymiad. Mae Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl. Ar gyfer swyddi perthnasol, rhaid i ymgeiswyr fod yn barod i gael archwiliad gyda chyn-gyflogwyr ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y lefel gymwys.**

**Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydyn ni wedi ymrwymo i gynnig cyfweliad i unrhyw berson ag anabledd sy'n bodloni holl feini prawf hanfodol y swydd. Rhowch wybod i ni os oes arnoch chi angen unrhyw addasiadau i wneud ein proses recriwtio yn fwy hygyrch.**

**Mae RSWT wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ei staff drwy ei haddewid recriwtio Cae Chwarae Teg a bydd yn rhoi unrhyw ymgeiswyr lleiafrifoedd ethnig sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd drwodd i'r cam recriwtio nesaf.**

**Yn RSWT, rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd diogel lle nad yw gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu'n cael eu goddef. Rydyn ni'n disgwyl i bawb gynnal, parchu a chefnogi ein polisi dim goddefgarwch.**

**Dylech fod yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn ceisiadau efallai os oes gennym reswm i gredu eu bod wedi cael eu cynhyrchu'n gyfan gwbl gan ddefnyddio adnoddau AI cynhyrchiol.**

**Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau: 18 Ionawr 2026**
**Cyfweliad Cyntaf: 5 Chwefror 2026**
**Ail Gyfweliad: 11 Chwefror 2026**

**SWYDDOG MOROL (CYMRU)**
**DISGRIFIAD SWYDD**

## MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Tîm** | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| **Lleoliad gweithio** | Gweithio gartref gyda theithio rheolaidd ledled Cymru a'r DU |
| **Yn atebol i** | Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru |

## PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Cefnogi Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru i ddatblygu a chyflwyno cyfleoedd ar gyfer adferiad morol yng Nghymru, gan gynnwys eiriolaeth i gyflawni amgylchedd morol sy'n gyfoethog o ran bywyd gwyllt. Bydd y rôl hon yn helpu i hyrwyddo gweledigaeth Ymddiriedolaethau Natur Cymru ar gyfer y moroedd erbyn 2030 drwy sicrhau cefnogaeth i bolisïau cadarn a gweithredu effeithiol, yn enwedig o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gwaith ar raddfa dalgylch a chynllunio morol. Bydd y swydd hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth ac ymgysylltiad yr Ymddiriedolaethau mewn meysydd sy'n dod i'r amlwg, sef cyllid glas, gan gynnwys budd net morol yng Nghymru.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Arwain a chydlynu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o adferiad morol ar draws Ymddiriedolaethau Natur Cymru.
- Cefnogi datblygiad ymwybyddiaeth a gwybodaeth Ymddiriedolaethau Natur Cymru mewn maes sy'n dod i'r amlwg, sef cyllid glas, gan gynnwys budd net morol.
- Arwain datblygiad safbwyntiau polisi ac eiriolaeth yr Ymddiriedolaethau Natur i hyrwyddo potensial a manteision adferiad morol yng Nghymru.
- Darparu canllawiau a chefnogaeth i Ymddiriedolaethau unigol i gryfhau eu dealltwriaeth o fentrau a pholisi morol yng Nghymru, a'u gallu i ddylanwadu arnynt.
- Gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau Natur i arddangos arfer gorau, rhannu dysgu, a llywio mentrau adfer morol a chyllid glas yn y dyfodol.

**Datblygu a rheoli cysylltiadau ag amrywiaeth o randdeiliaid ac eiriolwyr, gan gynnwys y sector adnewyddadwy morol a chynrychiolwyr pysgodfeydd, i adeiladu, llunio a chyflawni gwaith adfer yng Nghymru**

- Cyfathrebu'n agored ac yn effeithiol i hyrwyddo blaenoriaethau adfer morol i Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol ledled Cymru.
- Gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau Natur ledled y DU, cyrff anllywodraethol eraill a phartneriaid eraill i hyrwyddo negeseuon a rennir a safbwyntiau polisi y cytunwyd arnynt i gryfhau effaith.
- Cydlynu a chyd-fynd â safbwyntiau Ymddiriedolaethau Natur Cymru a chymunedau ymarfer perthnasol.

**Datblygu a hyrwyddo ymwybyddiaeth well o adfer morol, yn fewnol o fewn yr Ymddiriedolaethau Natur ac yn allanol, i feithrin cefnogaeth ar gyfer gweithredu cadarn.**

- Gweithio gyda chydweithwyr a chydlynu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faes sy'n dod i'r amlwg, sef cyllid glas, gan gynnwys budd net morol.
- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau yng Nghymru a'r DU i gyfleu'r angen am gryfhau cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol i flaenoriaethau morol.
- Cefnogi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd gwarchod a rheoli 30% o foroedd Cymru yn effeithiol erbyn 2030.
- Sicrhau bod dulliau dwyieithog yn cael eu defnyddio i ymgysylltu'n effeithiol â chynulleidfaoedd a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac, felly, dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol ac mae disgwyl iddynt ymddwyn mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith amgylcheddol gyfeillgar, pennu a chynnal safonau personol uchel o effeithlonrwydd a gofal am gwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'fedru gwneud' sy'n seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

**SWYDDOG MOROL (Cymru)**
**MANYLEB Y PERSON**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Rhinweddau personol** | | |
| Meddwl agored ond yn heriol – agored i syniadau newydd ac yn gallu cwestiynu'n adeiladol er mwyn gwella | √ | |
| Angerddol ac yn barod i ddysgu – brwdfrydig ac wedi ymrwymo i ddysgu a thwf parhaus | √ | |
| Gonest a Chynhwysol – yn dangos integriti ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chynhwysiant | √ | |
| Yn barod i gymryd perchnogaeth – yn ysgwyddo cyfrifoldeb ac yn dangos atebolrwydd am ganlyniadau | √ | |
| Aelod rhagorol o dîm – yn cydweithredu'n effeithiol ac yn cyfrannu at lwyddiant y tîm | √ | |
| **Cymwyseddau allweddol** | | |
| Rheoli perthnasoedd â chwsmeriaid – meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol, cydweithredol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid | √ | |
| Dull proffesiynol a hynod effeithlon o weithio, yn enwedig pan dan bwysau – dangos proffesiynoldeb a chyflawni canlyniadau'n effeithiol, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol | √ | |
| Ymwybyddiaeth a pharodrwydd i gyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd – cyfathrebu'n glir ac addasu dull i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol | | √ |
| Datblygu ffyrdd newydd o weithio mewn maes sy'n esblygu – arloesi a chroesawu newid i wella prosesau ac addasu i anghenion sy'n esblygu | | √ |
| **Profiad** | | |
| Dylanwadu ar bobl sy'n gwneud penderfyniadau – y gallu i feithrin ymddiriedaeth a dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau drwy argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth | | √ |
| Dealltwriaeth o arferion adfer morol a chadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau morol allweddol | √ | |
| Cyflawni eiriolaeth lwyddiannus - profiad clir o gyflawni amcanion eiriolaeth a sbarduno newid cadarnhaol | | √ |
| Cysylltu a thrafod ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion - medrus wrth feithrin cydweithredu a thrafod effeithiol gyda rhanddeiliaid amrywiol | √ | |
| **Gwybodaeth a sgiliau** | | |
| Dealltwriaeth gadarn o heriau cadwraeth sy'n effeithio ar amgylcheddau morol | √ | |
| Gwybodaeth gynhwysfawr am fioamrywiaeth forol ac ecosystemau morol, gan gynnwys cynefinoedd arfordirol ac alltraeth | √ | |
| Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth forol ac amgylcheddol, yn ddelfrydol yng Nghymru | | √ |

| | | |
|---|---|---|
| Dealltwriaeth eang o sector amgylcheddol Cymru a'r DU | √ | |
| Gwybodaeth am fudd net morol a chyllid glas, a'u rôl bosibl wrth gyllido gwaith adfer morol | | √ |
| Y gallu i ymchwilio, dadansoddi, dehongli a chyflwyno gwybodaeth gymhleth yn glir | √ | |
| Hyblyg ac yn gallu cyflawni gwaith o ansawdd uchel o fewn terfynau amser tynn | √ | |
| Yn gallu meithrin hygrededd ac ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol | | √ |